

Gwaredu ciosgau ffôn cyhoeddus Canllaw i'r rheolau

Mae llawer o bobl yn dibynnu ar 67,000 o giosgau ffôn cyhoeddus y DG (a elwir yn 'gabanau galwadau' neu'n 'gabanau ffôn').

I rai pobl, sydd heb unrhyw fath o ffôn eu hunain, mae ciosgau ffôn yn werth y byd. I eraill, maen nhw'n ddefnyddiol os nad yw ffonau symudol yn gweithio. Mae'r rhan fwyaf o giosgau ffôn – rhyw 64,500 – yn eiddo i BT.

Dengys ein hymchwil fod mwy na 33% o oedolion yn defnyddio ciosgau ffôn o bryd i'w gilydd, tra bo 7% yn eu defnyddio'n rheolaidd. Maent yn fwyaf poblogaidd gyda:

- phobl ifanc;
- pobl ar incymau isel;
- pobl â ffonau symudol ond heb ffôn gartref; a
- phobl heb ffôn o gwbl.

Maent yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd lle nad yw ffonau symudol yn gweithio, ac mewn unrhyw gymuned lle mae pobl dan anfantais.

Er hynny, nid yw pobl yn defnyddio ciosgau ffôn fel yr arferant. Hanerodd yr arian a gafodd BT o giosgau ffôn bron rhwng 2000 a 2006. Mewn gwirionedd, dywed BT fod 6 o bob 10 o'u ciosgau ffôn yn colli arian iddynt. Dyma pam y mae wedi lansio rhaglen i leihau nifer y ciosgau ffôn.

Fodd bynnag, yn wahanol i fusnes arferol, ni all BT roi'r gorau i wasanaethau am resymau sy'n gysylltiedig ag arian yn unig. Mae ganddynt ddyletswydd, sef y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, i ddarparu nifer resymol o giosgau ffôn sy'n gweithio lle mae'r angen mwyaf amdanynt.

Yn 2005, cynhaliodd Ofcom astudiaeth o giosgau ffôn. Roeddem eisiau taro'r cydbwysedd cywir rhwng nifer y ciosgau ffôn y mae gwir eu hangen ar y cyhoedd, a dymuniad BT i waredu ciosgau ffôn sy'n colli arian iddynt. Mae'r llyfryn hwn yn esbonio'r rheolau y mae'n rhaid i BT eu dilyn os ydynt eisiau gwaredu'r unig giosg ffôn mewn ardal leol, a'r rôl bwysig sydd gan awdurdodau lleol yn y broses honno. (Yn ardal Hull, mae'r un rheolau'n berthnasol i Kingston Communications, sy'n berchen ar y ciosgau ffôn yno.)

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi crynodeb syml o'r rheolau hynny i chi. Os oes angen i chi wybod y manylion pellach, neu eisiau gofyn am giosg newydd yn eich ardal chi, trowch at ddiwedd y llyfryn hwn.

Gwaredu ciosg ffôn – beth y mae'n rhaid i BT ei wneud gyntaf

Daw ein rheolau ar waith pan fydd BT eisiau gwaredu'r unig giosg ffôn ar safle. Wrth 'safle', golygwn bellter cerdded 400 metr o amgylch ciosg ffôn. Mae hyn yn golygu, os oes dau giosg ffôn o fewn 400 metr o bellter cerdded i'w gilydd, y gall BT waredu un heb ddilyn ein rheolau. Fodd bynnag, os ydynt eisiau gwaredu'r ciosg olaf hefyd, mae'n rhaid iddynt ddilyn proses gytunedig.

Mae'n rhaid i BT arddangos hysbysiad ar y ciosg ffôn, i ddweud wrth y cyhoedd:

- eu bod yn bwriadu gwaredu'r ciosg ffôn penodol hwn;
- enw'r awdurdod lleol lle gall pobl wrthwynebu (ymhen 42 diwrnod); a
- rhif rhadffôn y gall pobl ei ffonio i ganfod ble mae'r ciosg ffôn agosaf.

Yn ogystal â rhoi gwybod i'r cyhoedd, mae'n rhaid i BT ddweud wrth rhai sefydliadau am eu cynlluniau i waredu'r ciosg ffôn. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys, yn Lloegr:

- cyngorau dosbarth;
- cyngorau metropolitan;
- bwrdeistrefi Llundain;
- cyngorau unedol;
- Corfforaeth Llundain; a
- Chyngor Ynysoedd Sili.

Yn yr Alban, mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys:

- cyngorau unedol.

Yng Nghymru, mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys:

- cyngorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys:

- rhanbarthau unedol.

Mae'n rhaid i BT ddweud wrthynt:

- manylion y ciosg ffôn y maent eisiau ei waredu;
- pam y mae hyn yn rhesymol, gydag unrhyw wybodaeth i gefnogi eu barn;
- y dyddiad y rhoddodd BT yr hysbysiad ar y ciosg ffôn;

- bod cyswllt gwe â'n harweiniad am weithdrefnau; a
- sut y gall y sefydliad lleol wneud unrhyw wrthwynebiad i BT.

Os bydd y sefydliad lleol yn ysgrifennu at BT wedyn ymhen 90 diwrnod i wrthwynebu, gan nodi ei resymau, ni all BT waredu'r ciosg ffôn. Gelwir hyn y 'feto leol'.

Beth a wnaiff y sefydliad cyhoeddus lleol?

Pan fydd BT yn cyhoeddi cynlluniau i waredu ciosg ffôn, cyfrifoldeb y sefydliad lleol yw penderfynu a ddylai ddefnyddio ei feto leol i wrthwynebu. I wneud hyn, rhaid iddynt ofyn yn gyntaf am farnau'r gymuned leol drwy gynnal proses ymgynghori. Efallai bydd yr hysbysiad a roddwyd gan BT ar y ciosg ffôn hefyd yn gofyn am sylwadau lleol. Yna, bydd y sefydliad lleol yn cyhoeddi ei benderfyniad cyntaf, ac yn gofyn am farnau pobl amdano, cyn cyrraedd ei benderfyniad terfynol rhyw fis yn ddiweddarach.

Nid ydym yn gosod rheolau am sut y dylai sefydliadau lleol fynd ati i brofi gwir deimladau eu hardal leol. Fodd bynnag, byddem fel arfer yn disgwyl i'w hymgynghoriadau gynnwys sefydliadau cyhoeddus eraill, fel y cyngor plwyf neu'r cyngor cymuned neu, yng Ngogledd Iwerddon, grwpiau cymunedol lleol.

Mae hyn yn galluogi proses agored a theg, gan gynnwys yr holl gynghorau lleol yn gyfan gwbl yn y broses o benderfynu. Hefyd, fel arfer mae gan sefydliadau lleol systemau i sicrhau y caiff lleisiau'r cymunedau a'r cymdogaethau lleol eu clywed. Rhaid i'r sefydliad lleol weithio hefyd yn unol â thelerau Deddf Cyfathrebu 2003. Golyga hyn fod rhaid iddynt allu cyfiawnhau eu penderfyniadau, yn ogystal ag annog cystadleuaeth a gofalu am fuddiannau pawb fel dinasyddion.

Isod, ystyriwn sut yr ânt ati i gyrraedd eu penderfyniad.

Beth i ystyried

Ar ôl i'r sefydliad lleol gael adborth gan ei amryw ymgynghoriadau, argymhellwn y dylai edrych ar yr ardal sydd o amgylch y ciosg ffôn a'r bobl sy'n byw'n lleol ac ystyried y canlynol.

Pwy sy'n byw yno?

Gall y math o dai lleol o amgylch ciosg ffôn nodi pa mor bwysig ydyw i'r ardal. Os yw wedi'i amgylchynu gan bobl sy'n berchen ar eu tai, mae'n ddigon posib fod ganddynt ffonau cartref neu symudol hefyd. Fodd bynnag, os yw'r gymdogaeth

yn llawn tai sy'n cael eu rhentu'n bennaf, tai cymdeithasol neu gartrefi gofal preswyl, gall fod pobl ar incymau isel sydd angen y ciosg ffôn hwnnw.

Galwadau argyfwng

Mae'n tawelu meddyliau llawer o bobl fod ciosgau ffôn ar gael os bydd argyfwng. Gall hyn amrywio o alwadau 999 i allu galw am gymorth os bydd eich car yn torri i lawr. Mae angen i'r sefydliad lleol ystyried a yw ciosg ffôn penodol yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio ar gyfer galwadau argyfwng na chiosg arall. Er enghraifft, os yw'r ciosg ffôn ger man lle mae damweiniau'n gyffredin, gallai gryfhau'r ddadl o blaid ei gadw.

Beth yw'r enillion?

Boed yn siop, yn dafarn neu'n giosg ffôn, mae swm yr arian y mae pobl yn ei wario ar wasanaeth lleol yn arwydd o'i bwysigrwydd iddynt. Efallai y gall BT ddangos faint o fusnes y mae ciosg ffôn penodol yn ei gael. Os yw'n ffigur isel iawn, gallai hyn gefnogi'r achos o blaid ei waredu.

Y weithdrefn ar gyfer cyhoeddi hysbysiad

Ar ôl i'r sefydliad lleol bwysu a mesur y barnau a gafwyd yn yr ymgynghoriad cyntaf, rhaid iddo ddilyn gweithdrefn arbennig. Mae hyn yn digwydd mewn dau gam.

Yn y cam cyntaf, mae'r sefydliad yn cyhoeddi ei hysbysiad cyntaf. Bydd yr hysbysiad hwn yn nodi a yw'n cytuno neu'n gwrthwynebu cynllun BT i waredu'r ciosg ffôn, a'i resymau pam. Argymhellwn y dylai'r sefydliad lleol aros o leiaf 42 diwrnod ar ôl i BT gyhoeddi ei gynlluniau am y tro cyntaf cyn iddo gyhoeddi'r hysbysiad hwn.

Yna, mae'r sefydliad lleol yn caniatáu o leiaf fis i gael sylwadau'n ôl am ei benderfyniad, ac i ystyried y sylwadau hynny. Rhaid iddo gyhoeddi wedyn ei ail hysbysiad (sef yr 'hysbysiad terfynol'), sy'n nodi ei benderfyniad terfynol a'r rhesymau y tu ôl iddo.

Mae'n rhaid i'r sefydliad lleol sicrhau bod yr hysbysladau hyn yn cyrraedd yr holl bobl leol y maent yn effeithio arnynt. Yn yr un modd â'r ymgynghoriadau, byddem yn disgwyl i sefydliadau cyhoeddus lleol eraill gael eu cynnwys, fel y cyngor plwyf neu gyngor cymuned neu, yng Ngogledd Iwerddon, grwpiau cymunedol lleol. Rhaid hefyd i BT a'r Adran Diwydiant a Masnach gael yr hysbysladau hyn.

Apeliadau

Os yw sefydliad lleol yn gwrthwynebu gwaredu ciosg ffôn, mae system apelio ar gael. Byddai'r achos yn cael ei ystyried wedyn gan y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth.

Yr opsiwn i dalu gydag arian

Mae'n well gan lawer o bobl ddefnyddio arian ar gyfer y galwadau a wnânt mewn ciosgau ffôn, yn hytrach na chardiau credyd neu gardiau ffôn. Am y rheswm hwn, mae'n rhaid i saith o bob deg ciosg o leiaf gynnig cyfleusterau talu gydag arian.

Pan fydd BT yn gwaredu'r opsiwn i dalu gydag arian, disgwylwch iddynt sicrhau y gall pobl wneud galwadau argyfwng, rhadffôn a chyfnewid y gost bob amser. Byddem yn disgwyl hefyd, oni bai bod rheswm da iawn, i'r ciosgau ffôn hyn dderbyn cardiau debyd a chardiau credyd.

Disgwylwch i BT 'geisio' safbwyntiau sefydliadau lleol cyn iddynt waredu cyfleusterau arian.


Gofyn am giosg ffôn cyhoeddus newydd

Gallwch hefyd ofyn i BT osod ciosg ffôn ar safle newydd. Maent yn pwysu a mesur y cais drwy ystyried:

- nifer y bobl y byddai'r ciosg ffôn newydd yn eu gwasanaethu;
- y math o dai yn y gymuned honno; a'r
- pellter rhwng ciosg ffôn sydd yno eisoes a'r safle newydd posibl.

I wneud penderfyniad, mae BT yn defnyddio system sgorio dan reolau a osodwyd gan Ofcom. Maent yn rhoi'r sgorau uwch i gymunedau lleol mawr â chanran uchel o dai cymdeithasol, a lle nad oes unrhyw giosg ffôn gerllaw. Gallwch weld manylion llawn y system sgorio hon ar ein gwefan.

Y broses ar gyfer gwaredu – neu gadw – ciosg ffôn cyhoeddus



A hoffech wybod mwy?

Os hoffech weld y rheolau llawn am waredu ciosg ffôn, ewch i:

http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/uso/uso_statement/callboxdirection.pdf

Dylai sefydliadau lleol sy'n cynnal y broses ymgynghori edrych ar y rheolau a'r arweiniad ar ein gwefan. Mae yma enghreifftiau o hysbysiadau, a llythyrau i'w hanfon at yr Adran Diwydiant a Masnach.

http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/uso/uso_statement/removals.pdf

Gallwch weld y broses ar gyfer ciosgau ffôn newydd a'r system sgorio ar gyfer ceisiadau ar:

http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/uso/uso_statement/requestcallbox.pdf